# C.Y.S.A.G. - CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL
# 18.06.08

**Yn Bresennol:**

**Aelodau Cyngor Gwynedd:** Y Cynghorwyr Huw Edwards, Stephen Churchman, Selwyn Griffiths, Dafydd W. Roberts.

**Cristnogion a Chrefyddau Eraill:** Y Parch. Ganon Tegid Roberts (Yr Eglwys yng Nghymru), Mr Wyn Myles Meredith (Yr Eglwys Fethodistiaid)

**Athrawon:** Mr Noel Dyer (UCAC), Mr Paul Matthews Jones (SHA),

**Swyddogion:** John Blake (Swyddog Addysg), Bethan James (Ymgynghorydd Dyniaethau), Glynda O'Brien (Swyddog Pwyllgor).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Anwen Davies, Pat Larsen, Carol Llewelyn (Athrawes Ymgynghorol), Mrs Ruth Davies (Undeb Bedyddwyr Cymru), Mr Gwyn Hefin Jones (Eglwys Bresbyteraidd Cymru), Mrs Eirian Bradley Roberts (Yr Eglwys Babyddol), Mr Euron Hughes (NUT), Mr Rheinallt Thomas (aelod cyfetholedig).

## 1. GWEDDI

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan Ganon Tegid Roberts.

## 2. ETHOL CADEIRYDD

**Penderfynwyd: Ethol y Cynghorydd Pat Larsen yn Gadeirydd y pwyllgor hwn am y flwyddyn 2008/09.**

## 3. ETHOL IS-GADEIRYDD

**Penderfynwyd: Ethol y Cynghorydd Huw Edwards yn Is-gadeirydd y pwyllgor hwn am y flwyddyn 2008/09.**

Yn absenoldeb y Cynghorydd Pat Larsen gofynnwyd i'r Is-gadeirydd gymryd y Gadair y tro hwn.

## 4. COFNODION

**Cyflwynwyd:** Cofnodion cyfarfod CYSAG a gynhaliwyd ar y 6 Chwefror 2008.

**Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.**

5. **ARWEINIAD AR AROLYGU ADDOLI AR Y CYD MEWN YSGOLION ANENWADOL**

**Cyflwynwyd:** Er gwybodaeth, arweiniad ESTYN ar arolygu addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol.

**Adroddwyd:** (i) Gan yr Ymgynghorydd Dyniaethau mai arweiniad oedd y ddogfen gerbron ar gyfer Arolygwyr ond oherwydd bod gan CYSAG gyfrifoldeb i fonitro safonau Addysg Grefyddol a datblygiad moesol ac ysbrydol disgyblion teimlai mai priodol ydoedd i'r Aelodau dderbyn copi o'r arweiniad uchod er gwybodaeth. Fe noda'r arweiniad y gofynion cyfreithiol ar gyfer addoli ar y cyd, ceir ddisgrifiad o beth yw addoli ar y cyd ynghyd â sut mae Arolygwyr yn arolygu ac yn adrodd ar addoli ar y cyd.

(ii) Gan yr aelodau y byddai'n fuddiol i rannu'r arweiniad gyda phob Pennaeth ysgol.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi cynnwys yr arweiniad uchod.**

**(b) Gofyn i'r Swyddog Addysg, ar ran pwyllgor CYSAG, anfon yr arweiniad i bob ysgol.**

6. **AROLYGIADAU YSGOLION**

**Cyflwynwyd:** (a) Gwybodaeth ar gynnwys adroddiadau arolygiadau ysgolion dan Adran 28 Deddf Addysg 2005 mewn perthynas ag Addysg Grefyddol a Datblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol y disgyblion.

(b) Crynodeb o hunan arfarniad yr ysgolion canlynol:

(i) Ysgol Gynradd Brithdir
(ii) Ysgol Gynradd Bryncrug
(iii) Ysgol Gynradd Edern
(iv) Ysgol Gynradd Bro Lleu

**Adroddwyd:** (a) Gan yr Ymgynghorydd Dyniaethau ar y drefn flaenorol o arolygu pryd 'roedd addysg grefyddol yn cael ei arolygu ymhob pwnc ond erbyn hyn 'roedd y rheoliadau wedi newid gyda'r Timau Arolygu yn dewis 6 pwnc ar gyfer eu harolygu. Aeth ymlaen i egluro'r cwestiynau allweddol yn ymwneud a safonau addysg grefyddol fel pwnc. Esboniwyd bod addysg grefyddol yn bwnc statudol ar y cwricwlwm cenedlaethol a olygai bod yn rhaid i bob plentyn ei astudio. Yng-nghyswllt disgyblion hyn ysgolion esboniwyd bod rhai yn dewis astudio TGAU / AS mewn astudiaethau crefyddol. Eglurwyd o dan y drefn bresennol o arolygu na fyddai pob ysgol yn cael ei arolygu yn y pwnc addysg grefyddol ond fe fyddai'r arolygwyr yn edrych ar ddatblygiad moesol, ysbrydol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Tywysodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau'r Aelodau drwy adroddiadau'r arolygiadau ger bron a oedd yn arbennig o dda gyda phum ysgol gynradd (Friog, Brithdir, Bryncrug, Ganllwyd a Bron y Foel) wedi derbyn dyfarniad yng nghyd-

destun cwestiwn 3 sydd yn gofyn "Pa mor dda mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach"? 'Roedd Ysgol Bro Lleu wedi ei harolygu ar y pwnc addysg grefyddol gyda'r ysgol yn derbyn Gradd 2 yng Nghyfnod Allweddol 1 a Gradd 1 yng Nghyfnod Allweddol 2. Nodwyd hefyd bod Ysgol Uwchradd y Moelwyn wedi ei harolygu yn y maes addysg grefyddol ac wedi rhagori yn yr arolygiad drwy dderbyn Gradd 1 yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4. Tynnwyd sylw'r aelodau at adroddiad un ysgol gynradd wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru dan gymorth a oedd wedi ei harolygu dan Adran 50 o Ddeddf Addysg 2005. Nodwyd bod yr ysgol dan sylw yn cynnal safonau arbennig o dda.

(b) Oherwydd bod llai o ysgolion yn cael eu harolygu yn benodol ar y pwnc addysg grefyddol penderfynodd CYSAG wahodd ysgolion i gyflwyno crynodeb o'r hunan arfarniadau y cyflwynir i'r Timau Arolygu er mwyn gwirio dealltwriaeth o safonau'r ysgolion.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi cynnwys yr arolygiadau a'r hunan arfarniadau a gofyn, yn unol â'r drefn, i'r Swyddog Addysg anfon llythyr at yr ysgolion uchod yn eu llongyfarch am eu llwyddiant a nodi gwerthfawrogiad CYSAG o'r ymdrechion a wneir gan yr ysgolion i gyrraedd y graddau.**

## 7. <u>ADDYSG GREFYDDOL AR LAWR Y DOSBARTH</u>

Cafwyd cyflwyniad gan Mrs Stella Gruffydd, Athrawes yn Ysgol Bro Lleu, pryd y rhoddwyd braslun i'r Aelodau o'r hyn a arweiniodd i'r ysgol dderbyn rhagoriaeth o Radd 1 yng Nghyfnod Allweddol 2 yn dilyn arolygiad gan Arolygwyr ESTYN yn Ionawr 2008. Amlinellodd yr athrawes y nodweddion da hynny a amlygwyd gan yr Arolygwyr sef trafod egwyddorion gyda'r disgyblion megis cyfeillgarwch, goddefgarwch a chyfrifoldeb dros eraill a gwarchod y byd. 'Roedd yr ysgol yn cynnal ymweliadau i wahanol addoldai gan roddi cyfle i'r disgyblion weld gwahanol ddefodau yn ogystal â deall eu harwyddocâd. Noda'r Arolygwyr bod y disgyblion yn adnabod y Beibl fel llyfr sanctaidd ac 'roedd ganddynt wybodaeth dda o storiâu a chymeriadau'r Hen Destament a'r Testament Newydd.

Cydnabuwyd yr Arolygwyr arbenigedd yn yr ysgol o safbwynt bod y disgyblion yn gwybod am Grefyddau Mawr y Byd megis Hindŵaeth ac 'roedd y disgyblion yn parchu bod defodau gwahanol yn bwysig i grefyddau eraill.

Amlinellodd yr Athrawes y nodweddion rhagorol a welwyd gan yr Arolygwyr yn arbennig ym mrig yr ysgol gyda disgyblion Blwyddyn 5. 'Roeddynt yn gallu trafod syniadau megis heddwch, tangnefedd, ac yn gallu dangos ymdeimlad o beth 'roedd y geiriau'n golygu iddynt. Nodwyd aeddfedrwydd y disgyblion wrth drafod symbolaeth a chafwyd enghraifft o ddeilliannau'r gwersi ynghyd â'r gweithgareddau y bu i Flwyddyn 5 ymdrin â hwynt drwy astudio Gŵyl Iddewig, Tu B'Shvat sef dathlu Blwyddyn Newydd y Coed.

Diolchwyd am y cyflwyniad diddorol dros ben a gyflwynwyd gan Mrs Stella Gruffydd ar ffurf ysgafn a dealladwy i'r pwyllgor. Teimlai aelodau CYSAG bod y cyflwyniad wedi bod yn ymarfer da i ddangos iddynt ardderchowgrwydd yn yr ysgol

ac mai da o beth fyddai derbyn cyflwyniad cyffelyb gan gynrychiolydd o Ysgol y Moelwyn o ystyried dyfarniad rhagorol a dderbyniwyd gan yr ysgol yn dilyn arolwg. Mewn ymateb, cadarnhaodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau bod bwriad i wahodd Pennaeth yr Adran Addysg Grefyddol i gyfarfod o CYSAG ym mis Hydref.

## 8. MAES LLAFUR CYTÛN GWYNEDD A MÔN

**Cyflwynwyd:** I'r aelodau yn ystod y cyfarfod dogfen ddrafft terfynol ar Faes Llafur Cytûn Gwynedd a Môn.

Nododd yr Ymgynghorydd Dyniaethau nad oedd Addysg Grefyddol yn bwnc cenedlaethol ac felly yn unol â'r Ddeddf berthnasol, cyfrifoldeb y CYSAGau lleol ydoedd darparu maes llafur i ysgolion. Yn hyn o beth, nodwyd bod CYSAG Gwynedd a Môn wedi cydweithio i gynllunio a darparu maes llafur fyddai'n dderbyniol ar gyfer disgyblion cynradd ac uwchradd.

Eglurwyd bod trafodaethau wedi digwydd ers degawd ynglŷn â chael maes llafur Cytûn cenedlaethol. Roedd CYSAGau Gwynedd a Môn wedi bod yn trafod fframwaith ymgynghorol APADGOS ers Ionawr 2007. 'Roedd yn ofynnol i bob CYSAG lleol benderfynu os oeddynt am fabwysiadu'r fframwaith ai peidio a phenderfyniad CYSAG Gwynedd a Môn ydoedd croesawu a mabwysiadu'r fframwaith enghreifftiol.

Sefydlwyd Gweithgor yn cynnwys athrawon profiadol yn y maes i lunio atodiad i'r fframwaith a fyddai'n rhoi arweiniad i ysgolion a chymerodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau'r cyfle i dywys yr Aelodau drwy'r ddogfen gan dynnu sylw at:

- y cyflwyniad cyffredinol
- canllawiau cynllunio
- canllawiau addysgu a dysgu
- cynlluniau a llwybrau engreifftiol

Drwy fabwysiadau'r ddogfen fe fyddai gan Addysg Grefyddol statws cyfartal â phynciau eraill gyda chyfrifoldeb ar ysgolion i sicrhau bod dilyniant a pharhad i'r pwnc. Gofynnir i uwch dimau rheoli ysgolion roi amser teilwng, staff addas ac adnoddau digonol er mwyn gwneud cyfiawnder â'r pwnc

Noda'r atodiad yr angen i ysgolion fanteisio ar gyfleoedd, yng nghyd-destun Crefyddau'r Byd a disgwylir bod disgyblion:

(i) erbyn diwedd eu gyrfa gynradd wedi astudio rhywfaint o brif grefyddau'r byd
(ii) erbyn diwedd eu gyrfa uwchradd (Blwyddyn 11 yn Nwyfor/Meirionnydd a Blwyddyn 13 yn Arfon) wedi astudio holl Grefyddau'r Byd sef 6 ffydd.

Aeth yr Ymgynghorydd Dyniaethau ymlaen i restru'r ddogfennaeth a fyddai'n ddylanwadol ynghyd â'r ystyriaethau i athrawon wrth gynllunio profiadau dysgu. Fe fyddai'n rhydd i athrawon gynllunio Addysg Grefyddol mewn sawl ffordd megis:

- defnyddio’r ystod fel ffocws
- defnyddio sgiliau AG fel ffocws
- defnyddio thema fel ffocws
- defnyddio’r fframwaith sgiliau fel ffocws

ac fe welwyd nifer o enghreifftiau yn yr atodiad o gwestiynau sylfaenol er defnydd a chymorth i athrawon.

Tynnwyd sylw at ganllawiau a phapurau cynllunio yn yr atodiad ar gyfer dysgu Addysg Grefyddol i blant 16 - 18 mlwydd oed. Nid oedd nifer o ysgolion wedi bod yn darparu Addysg Grefyddol statudol ac o fewn yr atodiad i’r maes llafur Cytûn fe gynigir i ysgolion ddarparu Addysg Grefyddol i ddisgyblion o fewn yr oedran uchod mewn sawl ffordd:

- cwrs ffurfiol sy’n arwain at achrediad
- mynychu cyfres o gynadleddau
- cael achrediad sgiliau allweddol
- Cymru Ewrop a’r Byd sydd yn ofyniad yn y Fagloriaeth Gymreig
- Astudiaeth unigol
- Cyswllt gyda’r byd gwaith

I gloi, eglurodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau yn dilyn derbyn cymeradwyaeth CYSAG Gwynedd a Môn i’r drafft terfynol o’r atodiad, y byddai’n trefnu argraffu’r ddogfen gyda’r bwriad o’i gyflwyno i ysgolion ym Medi 2008. Hyderir y byddai lansiad swyddogol yn cael ei gynnal yn ystod tymor yr Hydref gyda gwahoddiad i gynrychiolydd o blith aelodau CYSAG i fynychu.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol teimlwyd pwysigrwydd bod disgyblion yn parchu gwahanol grefyddau’r byd ac y dylai rhieni dderbyn neges mai’r bwriad ydoedd ehangu deallusrwydd y disgyblion o wahanol grefyddau ac nid dysgu disgybl i arddel ffydd neu gred benodol.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn, nodi a diolch am y cyflwyniad gan nodi diolchiadau i’r Gweithgor Athrawon a swyddogion CYSAG am eu cyfraniadau a’u cefnogaeth wrth lunio’r ddogfen ddrafft ar gyfer maes llafur Cytun.**

**(b) Mabwysiadu’r ddogfen drafft terfynol fel atodiad i’r maes llafur Cytun gan gymeradwyo:**

**(i) bod disgyblion yn cael cyfle i astudio Crefyddau’r Byd fel a nodir yn (i) a (ii) uchod.**

**(ii) y ddogfennaeth a gynhwysir yn y canllawiau cynllunio ar gyfer y cwricwlwm ynghyd â’r awgrymiadau i athrawon fel arweiniad a chymorth iddynt i’w galluogi i ddysgu Addysg Grefyddol ar lawr y dosbarth.**

## 9. CYMDEITHAS CYSAGau CYMRU

**Cyflwynwyd:** (a) Cofnodion drafft cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru a gynhaliwyd ar 14 Mawrth 2008 yng Nghaerfyrddin.

**Adroddwyd:** Gan aelod ei siom nad oedd mwy o ddisgyblion o Gymru wedi cymryd y cyfle o gynnig Ymddiriedolaeth Addysg yr Holocost i ymweld â Auschwitz.
Mewn ymateb, eglurodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau bod gwybodaeth wedi ei ddosbarthu i ysgolion Gwynedd a Môn ond yn anffodus 'roedd y disgyblion ynghanol eu harholiadau allanol. Fodd bynnag 'roedd yn ymwybodol bod dau ddisgybl ac athro o Ysgol David Hughes, Ynys Môn wedi cymryd mantais o'r cynnig. Nodwyd y byddai'r trefnwyr yn gwirio amserlenni arholiadau i'r dyfodol wrth drefnu digwyddiad cyffelyb

**Penderfynwyd:** **(a) Derbyn a nodi cynnwys y cofnodion**.

**(b) Enwebu Mr Wyn Meredith i fynychu cyfarfod blynyddol CYSAGau Cymru yn Sir Fflint ar 26 Mehefin 2008.**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.30 pm a daeth i ben am 4.15 p.m.

**CADEIRYDD**